| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 6 Rhagfyr 2022 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Julia Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Safonau |
| **Awdur yr adroddiad** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Dyma Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cynnwys y flwyddyn galendr rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod pan oedd y Cadeirydd presennol sy'n cyflwyno'r adroddiad hwn yn Is-Gadeirydd ac roedd aelodaeth y Pwyllgor yn ymwneud â thymor diwethaf y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylid cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro cydymffurfiad â Chod Ymddygiad Aelodau. Mae pob aelod yn ymwybodol bod eu Cod wedi'i seilio ar (a dylid ei ddarllen ar y cyd â) 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan. Yng Nghymru mae deg egwyddor sef Anhunanoldeb, Gonestrwydd, Uniondeb a Phriodoldeb, Dyletswydd i gynnal y gyfraith, Stiwardiaeth, Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau, Cydraddoldeb a Pharch, Didwylledd, Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth.

4.2 Mae rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn nodi na fydd maint y Pwyllgor yn llai na 5 ond dim mwy na 9 Aelod ac mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid ei adolygu yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Safonau yn Sir Ddinbych yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau - 2

Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned (nad yw'n Aelod sy'n gwisgo dwy het), felly 7 aelod. Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio o aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Hefyd, dim ond pan fydd o leiaf hanner yr Aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau lleyg annibynnol y gall y Pwyllgor wneud cworwm.

4.3 Caiff aelodau lleyg eu recriwtio trwy hysbyseb gyhoeddus, sydd ar agor i bawb heblaw am feini prawf llym mewn perthynas â bod ag enw da a bod â rhinweddau penodol fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Ar wahân i hyn, mae'r cyfle hwn yn agored i bobl o bob cefndir, er mwyn cynrychioli barn y cyhoedd o ran y safonau y maent yn eu disgwyl gan eu haelodau etholedig; ac a fydd hefyd wedyn, os gofynnir iddynt wneud hynny, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau at y Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (ar hyn o bryd Michelle Morris) lle y torrwyd y Cod Ymddygiad, sy'n is na'r trothwy perthnasol. Mae'r penderfyniad i ymchwilio i dorri amod, yn ôl disgresiwn yr Ombwdsmon; yn seiliedig ar y ffeithiau, tystiolaeth a natur y mater ac a oes tystiolaeth ategol ai peidio, ac a oes budd i'r cyhoedd wrth ddefnyddio amser ac adnoddau ariannol y cyhoedd yn yr ymchwiliad a'r gwrandawiad ei hun; yn debyg i ddull Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer cyhuddiadau ac erlyniadau.

4.4 Pan fydd y Pwyllgor yn derbyn atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ei hymchwiliad i gŵyn, bydd wedyn yn eistedd mewn swyddogaeth led-farnwrol tra eu bod yn gwrando ar y mater. Mae ganddynt bwerau i wahardd Aelod o'i Swydd am uchafswm o 6 mis, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni fydd yn gallu gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod etholedig ac ni fydd yn derbyn unrhyw gyflog aelod. Mae gan y Pwyllgor ddisgresiwn i roi cosbau llai megis gwaharddiad rhannol o ddyletswyddau neu 'gerydd cyhoeddus' a gosod amodau eraill megis mynychu hyfforddiant.

4.5 Mae hefyd dewis lle mae Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn am farn y Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau ynghylch a fyddai'r Swyddog Monitro, o dan yr amgylchiadau hynny lle mae'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio ag ymchwilio, yn dymuno ymchwilio'n lleol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Swyddog Monitro yn ymgynghori â'r Cadeirydd a/neu'r Pwyllgor a chaiff pob achos ei ystyried yn ôl ei rinweddau. Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi mabwysiadu 'Protocol Hunan-reoleiddio Aelodau' sydd wedi'i nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Nid bwriad y protocol mewnol hwn yw disodli'r Cod Ymddygiad, yn hytrach ei fwriad yw eistedd ochr yn ochr â'r Cod, gan alluogi ymddygiad nad yw eto wedi cyrraedd y trothwy i ddod yn

doriad i gael ei drin heb uwch gyfeirio ac osgoi unrhyw oedi. Y rhagosodiad sylfaenol yw y bydd Aelodau'r Cyngor Sir yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud ag Aelodau drwy'r broses fewnol hon os yw'n briodol. Mae'n bosibl y bydd angen i un aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau chwarae rhan gefnogol yn y broses, os caiff ei chychwyn a darparu cyswllt ag Arweinwyr Grŵp.

4.6 Mae gwaith pellach yn cael ei wneud hefyd i alluogi Arweinwyr Grŵp i hyrwyddo cydymffurfiad o fewn eu Grŵp mewn perthynas â chadw at y Cod gyda dull yn cael ei ddatblygu i'w fabwysiadu gan Arweinwyr Grŵp a bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn Adroddiad Blynyddol nesaf y Cadeiryddion.

4.7 Mae Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned hefyd wedi cael eu hannog i fabwysiadu protocol o'r fath ar gyfer eu Cynghorau priodol, y gallent ei weinyddu eu hunain mewn ffordd debyg.

4.8 Yn ystod 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r fframwaith moesegol yng Nghymru - Adolygiad Penn, a oedd yn edrych a oedd y fframwaith yn parhau i fod yn addas at y diben. Y casgliad cyffredinol oedd bod y fframwaith yn addas at y diben ac nad oedd angen ei newid yn sylweddol ond argymhellwyd rhai mân addasiadau a diwygiadau i gynnwys ystyriaeth o rôl Pwyllgorau Safonau wrth gefnogi cynghorau cymuned a phwerau ychwanegol y gallai fod eu hangen, yn enwedig goblygiadau o ran adnoddau wrth ddarparu cefnogaeth o'r fath. Mae'n werth nodi bod yr adolygiad yn tynnu sylw at bryderon difrifol ynghylch graddau bwlio, diffyg parch neu ymddygiad aflonyddgar yn gyffredinol gan rai aelodau mewn cyfarfodydd o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

4.9 Hwn oedd cam cyntaf yr adolygiad gyda'r ail gam yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i gyflawni unrhyw newidiadau i'r fframwaith safonau moesegol a ystyrir yn briodol ac yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru yng ngoleuni canfyddiadau ac argymhellion cam cyntaf yr adolygiad.

4.10 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r Pwyllgor gyfarfod 4 gwaith ac fe gafodd 1 cyfarfod ei ganslo. Mae'r tabl sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o'r eitemau dan sylw.

4.11 <u>Eitemau Sefydlog</u>

Mae'r tair eitem sefydlog yn 2021 y mae'r Pwyllgor yn eu derbyn sy'n parhau i weithio'n dda gyda phedwerydd (Ceisiadau am Oddefebau) a phumed eitem (Coflyfr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) i'w hychwanegu yn y dyfodol: -

(a) Adroddiadau gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'u presenoldeb a'u harsylwadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor a'r Cyngor boed ar lefel Sir neu

Gymuned. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ymagwedd ragweithiol tuag at godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn mynychu i arsylwi ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd; yna byddent yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, sydd yna'n gwneud argymhellion o ran unrhyw anghenion hyfforddi neu batrymau ymddygiad mewn cymunedau penodol neu ar lefel Sir. Nodir hefyd hygyrchedd cyfarfodydd. O ran cyfnod 2021, roedd swyddogaethau'r fframwaith moesegol cyffredinol ar lefel resymol yn y gymuned ac ar lefel sir; ac adlewyrchir hyn yn lefel y cwynion i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fel y pwysleisiwyd y llynedd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i wneud yn glir bod eu hymagwedd o ran mynychu yn bersonol mewn cyfarfodydd o safbwynt cefnogaeth a chydweithio; er mwyn targedu adnoddau i wella safonau a hyder y cyhoedd yn y gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol, ar sail wirfoddol; ac nid o unrhyw safbwynt gorfodaeth neu gritigol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwerth y mae cynghorau a'u haelodau o'r fath yn ychwanegu at gymunedau lleol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Cod yno i roi hyder i'r cyhoedd, ond hefyd i warchod aelodau ac mae unrhyw ymdrechion i godi'r ymwybyddiaeth hon ymhlith yr holl aelodau sy'n gwasanaethu yn thema allweddol y maent yn ei chymeradwyo'n barhaus.

(b) Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyflwynir yr adroddiad mewn sesiwn gaeedig a rhoddir ond ychydig o fanylion i'r aelodau mewn perthynas â'r gŵyn ond maent yn cael digon o fanylion i alluogi aelodau i ystyried a ellir argymell hyfforddiant neu gamau gweithredu eraill i gynghorau tref, dinas a chymuned penodol sy'n profi materion neu gynnydd mewn cwynion.

(c) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymagwedd gweithredu pwyllgorau eraill y cyngor ac mae'n annog ymagwedd fwy strategol at rôl y Pwyllgor fel un ragweithiol nid dim ond ymateb i gwynion.

4.12 Yn ystod y flwyddyn hon hefyd cafwyd un cyfarfod o Fforwm Safonau Gogledd Cymru. Y brif eitem i'w thrafod yn y cyfarfod hwn oedd yr adolygiad annibynnol parhaus ar y pryd o'r fframwaith moesegol yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i cynhaliwyd gan Richard Penn. Roedd yr adolygiad yn ystyried cryfderau a gwendidau'r fframwaith cyfredol, sut y gellid ei wella a sut y gellid lleihau nifer y cwynion. Mae'r

adolygiad hwn wedi'i gwblhau ers hynny ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei argymhellion. Ar y cyfan daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y fframwaith yn addas at y diben. Un o'r argymhellion oedd bod gwaith Fforwm Safonau Gogledd Cymru yn cael ei ailadrodd yn genedlaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sefydlu Fforwm Safonau Cymru Gyfan i alluogi cynrychiolwyr Pwyllgorau Safonau lleol i rannu arfer da a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin.

4.13 Yn ystod y flwyddyn hon cafwyd un cyfarfod mewn perthynas â Phenderfyniad ynghylch a oedd y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Clywodd y Pwyllgor Safonau'r mater a daeth i'r casgliad bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri a bu i'r pwyllgor osod gwaharddiad o ddau fis. Apeliodd yr aelod dan sylw yn erbyn y penderfyniad hwn i Banel Dyfarnu Cymru a gadarnhaodd benderfyniad y Pwyllgor Safonau.

4.14 Mae'r Pwyllgor hefyd wedi sylwi ar y lefel isel o geisiadau am oddefebau a gyflwynir er gwaethaf ysgrifennu at Gynghorau i'w hatgoffa o'r drefn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae Pwyllgor Safonau cynrychioliadol sy'n gweithredu'n llawn ac sy'n cynnal y safonau a ddisgwylir gan aelodau yn helpu i ategu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau democrataidd.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Ni ystyrir bod angen unrhyw ymgynghoriadau eraill; mae'r adroddiad hwn wedi bod mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau ac maent yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor a'r Cadeirydd o ran cadw at god ymddygiad Aelodau yn y Sir a sylwadau o ran uniondeb a moeseg yn gyffredinol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ddim yn ofynnol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

**11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru). 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.